**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 6:00 y.h. Nos Fawrth, 16 Tachwedd 2021.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Richard Robinson, Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Martin Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Cemlyn Jones, Meirwen Lloyd, Alan Pritchard, Sioned Roberts Jones, Haf Williams

**Aelodau o'r cyhoedd:** Ruth Rowlands, Alwenna, Stephen Morris

**Clerc:** Meirion Jones

**901. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau o'r cyhoedd am ymuno.

**902. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**903. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**904. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 19 Hydref 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**905. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Eitem 891 – gofynnwyd os oedd unrhyw ddatblygiad parthed cyflymder traffig yn Cwm y Glo?

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd, nad oedd unrhyw newyddion na datblygiad wedi digwydd.

**906. I dderbyn cyflwyniad gan Lowri Vaughan o Prosiect Gwyrdd Ni**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Lowri Vaughan o Brosiect Gwyrdd Ni. Mae Lowri Vaughan ydi Hwylusydd Cymunedol Gwyrdd Ni dros Ddyffryn Peris.

Nodwyd fod sleidiau cyflwyniad i'w rhannu gyda'r aelodau er gwybodaeth a diolchwyd iddi am y wybodaeth a'r cyflwyniad.

**907.** **I dderbyn sylwadau am broblemau traffig ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug a lleoliadau eraill.**

Adroddwyd fod y nifer o broblemau gyda trafnidiaeth ar Ffordd yr Orsaf yn parhau i achosi trafferthion i breswylwyr Ffordd yr Orsaf. Nodwyd fod car wedi barcio o flaen giât un eiddo fel nad oedd yn bosib cerdded allan drwy'r giât. Nodwyd fod y cyngor cymuned wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus ar 3ydd o Chwefror 2020 i drafod y problemau ble roedd swyddog o Gyngor Gwynedd, yr Heddlu a cynrychiolwyr o'r cwmnïau bysiau yn bresennol. Mynegodd llawer iawn o drigolion enghreifftiau o dagfeydd, ceir yn trafaelio yn rhy gyflym, a bysiau methu mynd drwyddo. Yn anffodus daeth y pandemig a newid ar y ffordd o weithio, gyda adnoddau yn cael eu arall gyfeirio i ymdrin a'r pandemig.

Fel aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd, adroddodd y Cynghorydd Beca Brown ei fod wedi bod mewn cyswllt a swyddogion cyngor Gwynedd ar fwy nac un achlysur ac ei bod ar hyn o bryd yn disgwyl dyddiad i gyfarfod safle gyda'r swyddogion perthnasol o Gyngor Gwynedd.

Nodwyd mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ydi materion yn ymwneud a materion priffyrdd nid y cyngor cymuned. Mewnbwn y cyngor cymuned, ydi ei fod yn lleisio llais y bobl leol ac yn ymddwyn fel hwylusydd ar gyfer cyfarfodydd ayyb.

**Penderfynwyd:**

a) Cytunwyd fod problem gyda thraffig a parcio nid yn unig ar Ffordd yr Orsaf ond mewn mannau eraill yn Llanrug ac fod angen rhoi pwysau ar Gyngor Gwynedd eu datrys. Y Cynghorydd Beca Brown gyda'r clerc i hysbysu unrhyw ddatblygiadau yn deillio o gyfarfod a swyddogion Cyngor Gwynedd

**908.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

## Biniau Halen

Y cyngor yn treialu ffordd newydd o weithredu trwy eto ariannu llenwi y biniau halen ar gost eu hunain. E-bost i ddod i'r Clerc yn esbonio y sustem newydd. Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn mis Ionawr i adrodd ar sut aeth pethau.

## Parcio Campervans

Cynllun peilot yn oddeuty 6 o feysydd parcio y cyngor i droi rhannau ohonynt yn lle aros dros nos i campervans. Tebyg i'r aires sydd i weld ar y cyfandir. Am redeg y peilot am dair blynedd ac adrodd yn ôl. Hefyd dod a mesuriadau gorfodaeth i

mewn i rwystro y campervans aros dros nos mewn lay-bys ac yn y blaen.

**Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy**

Cyflwyno y cynllun uchod, mi fydd y cynllun yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus, felly fydd cyfle i'r Cynghorau Cymuned a'r cyhoedd i roi sylwadau. Un peth oedd braidd yn amlwg o'r adroddiad fod ddim digon o staff i wneud gymaint ac sydd angen ei wneud.

**Fframwaith Pwyllgorau**

Mae'r Adran Democratiaeth yn edrych ar sut fydd pwyllgorau y Cyngor yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Mae i weld mae cymysgedd fydd o rhai hybrid, sef rhai yn yr ystafell bwyllgor ac eraill yn ymuno yn rhithiol neu rhai rhithiol h.y. pawb yn ymuno ar Zoom. Y rhai tebyg o fod yn hybrid yw Y Cyngor Llawn, y Cabinet, Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgorau Craffu. Byddai'r gweddill yn rhithiol heblaw am rhai eithriadau posib fel Pwyllgor apêl cyflogau.

**Strategaeth digidol Addysg**

Mae'r Cyngor wedi prynu digon o Laptops/Chrome books i bob disgybl ac athro yn y sir fel bod pawb gyda'r un adnodd. Mi fydd angen uwchraddio pob rhyw 5 mlynedd ac mae'r cyngor wedi cytuno i gyd ariannu hyn gyda'r ysgolion. Bydd swyddogion ychwanegol TG yn cael eu cyflogi i roi y gefnogaeth technegol i'r ysgolion. Gobeithir y bydd hyn yn ei le erbyn Ebrill 2022.

**Yn Lleol**

Rwyf yn dal i ddisgwyl ymatebion gan y Cyngor Sir ynglŷn nifer o ymholiadau rwyf wedi ei wneud gan gynnwys lleoliad yr arwydd 40mya wrth ddod i Cwm y glo o gyfeiriad Llanberis, or-gyflymder Ffordd Ceunant/Tanycoed, amserlen trosglwyddo Ysgol Cwm y glo i Menter Fachwen.

**Cynllunio**

Yn olaf er gwybodaeth mae cais cynllunio Ferodo /Plas Brereton yn dod i'r Pwyllgor Cynllunio dydd Llun nesaf, hefo argymhelliad i wrthod caniatâd.

**909. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Adroddiad i ddilyn

**910. I wneud ystyried gwneud cwyn swyddogol at Gyngor Gwynedd am ddiffyg ymateb parthed ein cais am finiau ychwanegol ar gyfer Llanrug a Cwm y Glo**

Nodwyd fod cais am finiau ychwanegol yn Llanrug a Cwm y Glo fisoedd oed bellach. Mae rhestr wedi anfon at Gyngor Gwynedd gyda lleoliadau yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyhoedd. Roeddem wedi cael addewid byddai swyddog yn ymweld a'r safleoedd ond hyd yma does dim wedi digwydd. Gofynnwyd am ganiatâd y cyngor i'r clerc fynd a'r mater ymhellach gyda prif swyddog yr adran ac ystyried mynd drwy'r cynllun gwyno ffurfiol Cyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:** Caniatáu i gyfeirio'r mater at uwch swyddog ar adran ac os bydd angen gwneud defnydd o drefn gwyn ffurfiol Cyngor Gwynedd.

**911. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**

Adroddodd y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 9fed o Dachwedd. Nodwyd mae prif bwrpas y cyfarfod oedd i edrych i fewn i ariannu atgyweirio'r fynwent. Nodwyd fod ymateb wedi dod gan Lywodraeth Cymru nad oedd yn bosib benthyg arian drwyddynt hwy oherwydd un o'r rhesymau oedd nad y cyngor oedd yn berchen ar y cofebion.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**912. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Dim adroddiad ar gael

**913. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 10fed o Dachwedd. Nodwyd fod yr arwyddion yn y fynwent bodi bod fyny ers peth amser bellach ac fod angen symud ymlaen i'r cam nesaf sef i roi nodyn ar bob stêc yn gofyn iddynt. Ble mae'n bosib bydd angen adnabod perchennog y gofeb a cysylltu a hwy. Gobeithir erbyn Ionawr 2022 bydd y cyngor mewn sefyllfa i adnabod faint o waith y bydd angen ei wneud.

Adroddwyd fod rhai wedi gwneud gwaith ar y cofebion ac fod eraill wedi bod mewn cysylltiad ac yn disgwyl i'r seiri wneud y gwaith.

Nodwyd fod y system ddigidol yn gweithio yn dda ar gyfer archwilio'r fynwent.

Dal i ddisgwyl cael gosod y placiau ar y fynwent yn nodi'r ardaloedd.

Adroddwyd fod y Cynghorydd Hefin Jones wedi bod ar webinar ac wedi gofyn cwestiwn i'r ICCM ac ei fod wedi cael sylw teilwng.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch yr adroddiad

**914. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fod y cynllun cyfredol yn dod i ben ar 30 o Dachwedd 2021. Roedd posibilrwydd o gael arian drwy gynllun Fareshare Caerdydd. Rydym wedi derbyn wedyn mai fyddai hyn ddim yn bosib oherwydd mai grant ar gyfer pwrcasu cerbydau oedd hwn.

Yn sgil hyn, byddai llythyr yn mynd i bob derbyniwr yn eu rhybuddio gall y cynllun ddod i ben ond ein bod yn chwilio am ffynonellau eraill o grantiau i ariannu'r cynllun.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**915. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a)
**Rhif y Cais:** C21/1061/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Adeiladu modurdy dwbl. Construction of double garage.
**Ymgeisydd:** Mr Gavin Smith
**Cyfeiriad:** Afonwy Cottage, Pontrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2SW
**Cyfeirnod Grid:** 251404.76, 362945.04
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b)

**Rhif y Cais:** C21/0861/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais am ailfodelu ac ymestyn y gwesty a'r sba presennol ynghyd â lleoli 39 o cabanau gwyliau, ffurfio cyrtiau tenis, canolfan weithgareddau, derbynfa, bloc llety staff ac ystafell blanhigion biomas, gyda ffyrdd mynediad cysylltiedig, llwybrau, parcio a thirlunio

**Asiant:** Rhys Davies (Cadnant Planning)
**Ymgeisydd:** (Caernarfon Properties Ltd)
**Cyfeiriad:** Seiont Manor Hotel, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AQ
**Grid:**252774.26, 363874.19
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau blaenorol

Daeth y cyfarfod i ben am 19:45

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 21 Rhagfyr 2021